

Felin Fawr

Mae gan Felin Fawr gyfres wych o adeiladau gwreiddiol sy'n berchen i'r diwydiant chwareli llechi. Adeiladwyd melin ar gyfer torri blociau o lechi yma yn 1803, ac mae'r ddwy olwyn ddŵr wreiddiol, a ddefnyddiwyd tan 1965 i bweru'r felin slabiau a'r ffwndri, wedi goroesi. Wedi'i hadeiladu o bosib oddeutu 1846, credir bod gan un o'r melinau hyn yr olwyn

ddŵr ddiwydiannol hynaf yng Nghymru. Felin Fawr oedd man cychwyn y rheilffordd i Borth Penrhyn. Cafodd y chwe milltir o drac rheilffordd *bullhead* rhwng Gwaith Chwarel Felin Fawr, Bethesda a Phorth Penrhyn eu rhoi yn rhoddedig i Reilffordd Ffestiniog a chawsant eu codi yn 1965.



Melin lifio llechi yn Felin Fawr, 1913

Heddiw, mae Rheilffordd Chwarel y Penrhyn wrthi'n cael ei hadfer gan Felin Fawr Cyf, cwmni lleol sy'n berchen ar safle Gwaith Chwarel Felin Fawr a gwely trac ychwanegol. Mae cam cyntaf y gwaith adfer ym Methesda wedi'i gwblhau, a bellach mae gwaith ar gychwyn i adnewyddu sawl trê. 'Gwynedd' oedd y trê 'Port Class' cyntaf i gael ei gyflenwi gan gwmni *Hunslet Engine* o Leeds yn 1883 i Chwareli'r Penrhyn, ynghyd â'i chwaer 'Lilian'. Cafodd y trê ei enwi yn Gwynedd ar ôl yr Anrhydeddus Gwynedd Douglas Pennant, merch George Sholto Gordon Douglas Pennant, Ail Farwn Penrhyn. Er mai ar gyfer dyletswyddau gwthio ym Mhorth Penrhyn oedd bwriad y trê, treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd gwaith yn Chwarel y Penrhyn lle arhosodd i weithio hyd nes y cafodd ei dynnu oddi ar y lein yn 1954. Parhaodd trenau eraill i redeg ar y lein tan 1962, pan gafodd y lein ei chau.



Prentisiaid a gweithwyr profiad gwaith o Bethesda yn gweithio yn Felin Fawr

Bellach, mae dau o'r locomotifau, Blanche a Linda, yn gweithio ar Reilffordd Ffestiniog. Daethpwyd i gytundeb y byddai Rheilffordd Chwarel y Penrhyn yn cynorthwyo gyda'r gwaith o adfer y trê 'Gwynedd' yn y gobaith y byddai'n gallu dychwelyd i weithio cyn gynted â phosib, enghraifft wych o sut mae Felin Fawr wedi dod yn ganolbwynt yr ymdrechion heddiw i ddod â'r gymuned leol yn rhan o'r gwaith a wneir i ddiogelu a hyrwyddo arwyddocâd y chwarel lechi i'r cyhoedd.

TAITH Y LLECHEN

Dilynwch Daith y Llechen ar hyd llwybr Lôn Las Ogwen lle ceir amryw o baneli gwybodaeth sy'n adrodd stori unigryw llechi Ogwen, Chwarel y Penrhyn a'r bobl fu'n rhan o'r diwydiant llechi.